



**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

---

**OFFERYNNAU STATUDOL**

---

---

**STATUTORY INSTRUMENTS**

---

**2006 Rhif 2980 (Cy.271)**

**2006 No. 2980 (W.271)**

**AER GLÂN, CYMRU**

**CLEAN AIR, WALES**

**Gorchymyn Ardaloedd Rheoli  
Mwg (Lleoedd Tân Esempt)  
(Cymru) 2006**

**The Smoke Control Areas  
(Exempted Fireplaces) (Wales)  
Order 2006**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

*(This note is not part of the Order)*

Mae adran 20 o Ddeddf Aer Glân 1993 ("Deddf 1993") yn gosod gwaharddiad cyffredinol ar ollwng mwg mewn ardaloedd rheoli mwg.

Section 20 of the Clean Air Act 1993 ("the 1993 Act") places a general prohibition on the emission of smoke in smoke control areas.

Caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy orchymyn a wnaed o dan adran 21 o Ddeddf 1993, esemptio dosbarthau penodedig ar leoedd tân rhag ddarpariaethau adran 20, os yw wedi'i fodloni y gallant gael eu defnyddio at losgi tanwydd nad tanwydd awdurdodedig mohono a hynny heb greu unrhyw fwg neu faint sylweddol o fwg.

The National Assembly for Wales may, by order made under section 21 of the 1993 Act, exempt specified classes of fireplace from the provisions of section 20, if it is satisfied that they can be used for burning fuel other than authorised fuels without producing any smoke or a substantial quantity of smoke.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig. Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn yn esemptio'r dosbarthau ar leoedd tân a restrir yng nghlofn gyntaf yr Atodlen i'r Gorchymyn rhag darpariaethau adran 20 o Ddeddf 1993, yn ddarostyngedig i'r amodau yn yr ail golofn o'r Atodlen honno.

This Order applies to Wales only. Article 2 of the Order exempts the classes of fireplace listed in the first column of the Schedule to the Order from the provisions of section 20 of the 1993 Act, subject to the conditions in the second column of that Schedule.

**2006 Rhif 2980 (Cy.271)****2006 No. 2980 (W.271)****AER GLÂN, CYMRU****CLEAN AIR, WALES**

**Gorchymyn Ardaloedd Rheoli  
Mwg (Lleoedd Tân Esempt)  
(Cymru) 2006**

**The Smoke Control Areas  
(Exempted Fireplaces) (Wales)  
Order 2006**

*Wedi'i wneud* 14 Tachwedd 2006

*Made* 14 November 2006

*Yn dod i rym* 24 Tachwedd 2006

*Coming into force* 24 November 2006

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), ac yntau wedi'i fodloni y gall y dosbarthau ar leoedd tân sy'n cael eu hesemptio gan y Gorchymyn hwn gael eu defnyddio i losgi tanwydd nad tanwydd awdurdodedig mohono a hynny heb gynhyrchu unrhyw fwg neu faint sylweddol o fwg, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 21 o Ddeddf Aer Glân 1993(1) ac sydd bellach wedi'u breinio yn y Cynulliad Cenedlaethol(2), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

The National Assembly for Wales ("the National Assembly"), in exercise of the powers conferred upon the Secretary of State by section 21 of the Clean Air Act 1993(1) and now vested in the National Assembly(2), and being satisfied that the classes of fireplace exempted by this Order can be used for burning fuel other than authorised fuels without producing any smoke or a substantial quantity of smoke, hereby makes the following Order:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2006 a daw i rym ar 24 Tachwedd 2006.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Title, commencement and application**

1.-(1) The title of this Order is the Smoke Control Areas (Exempted Fireplaces) (Wales) Order 2006 and it comes into force on 24 November 2006.

(2) This Order applies in relation to Wales.

**Dosbarthau ar leoedd tân sy'n cael eu hesemptio rhag adran 20 o Ddeddf Aer Glân 1993**

2. Mae'r dosbarthau ar leoedd tân a ddisgrifir yn yr Atodlen, ar yr amodau sy'n cael eu pennu yno, yn cael eu hesemptio o ddarpariaethau adran 20 o Ddeddf Aer Glân 1993 (sy'n gwahardd gollwng mwg mewn ardaloedd rheoli mwg).

**Classes of Fireplaces exempted from Section 20 of the Clean Air Act 1993**

2. The classes of fireplace described in the Schedule are, upon the conditions there specified, exempted from the provisions of Section 20 of the Clean Air Act 1993 (which prohibits smoke emissions in smoke control areas).

(1) 1993 p.11.

(2) Trosglwyddwyd pwerau perthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo.

(1) 1993 c.11.

(2) The relevant powers of the Secretary of State were transferred to the National Assembly by Article 2 of, and Schedule 1 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(1)

14 Tachwedd 2006

14 November 2006

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

---

(1) 1998 p.38.

---

(1) 1998 c.38.

## YR ATODLEN

Erthygl 2

### DOSBARTHOU AR LEOEDD TÂN SY'N ESEMPT

<i>Dosbarthau ar Leoedd Tân</i>	<i>Amodau</i>
<p>Modelau RRK 22 - 49 y Binder Wood Fired Boiler (allbwn 49kW) a wneir gan Binder Gesellschaft mit beschränkter Haftung (GmbH) o Awstria.</p>	<p>1. Rhaid i'r lleoedd tân gael eu gosod, eu cynnal a'u cadw a'u defnyddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a Wood Energy Limited sy'n dwyn y teitl Binder Equipment Installation, Commissioning and Maintenance dated 17 May 2005 a'r cyfeirnod WELBinderManualrev0.doc, revision 0.</p> <p>2. Ni chaniateir defnyddio unrhyw danwydd nad pelenni neu sglodion pren mohono, ond heb gynnwys unrhyw belenni neu sglodion o'r fath (yn benodol, rhai sy'n deillio o wastraff adeiladu a dymchwel) sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaidd neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi'u trin â chadwolion pren neu i fod wedi'u cotio.</p>
<p>Modelau RRK 80 - 175 y Binder Wood Fired Boiler (allbwn 75 - 149 kW) ynghyd â modelau seiclôn ZA 80 - 175 a wneir gan Binder Gesellschaft mit beschränkter Haftung (GmbH) o Awstria.</p>	<p>1. Rhaid i'r lleoedd tân gael eu gosod, eu cynnal a'u cadw a'u defnyddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a Wood Energy Limited sy'n dwyn y teitl Binder Equipment Installation, Commissioning and Maintenance dated 17 May 2005 a'r cyfeirnod WELBinderManualrev0.doc, revision 0.</p> <p>2. Ni chaniateir defnyddio unrhyw danwydd nad pelenni neu sglodion pren mohono, ond heb gynnwys unrhyw belenni neu sglodion o'r fath (yn benodol, rhai sy'n deillio o wastraff adeiladu a dymchwel) sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaidd neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi'u trin â chadwolion pren neu i fod wedi'u cotio.</p>
<p>Model RRK 130 - 250 y Binder Wood Fired Boiler (allbwn 185 - 230 kW) gyda seiclôn (model math ZA) a wneir gan Binder Gesellschaft mit beschränkter Haftung (GmbH) o Awstria.</p>	<p>3. Rhaid i'r lleoedd tân gael eu gosod, eu cynnal a'u cadw a'u defnyddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a Wood Energy Limited sy'n dwyn y teitl Binder Equipment Installation, Commissioning and Maintenance dated 17 May 2005 a'r cyfeirnod WELBinderManualrev0.doc, revision 0.</p> <p>4. Ni chaniateir defnyddio unrhyw danwydd nad pelenni neu sglodion pren mohono, ond heb gynnwys unrhyw belenni neu sglodion o'r fath (yn benodol, rhai sy'n deillio o wastraff adeiladu a dymchwel) sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaidd neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi'u trin â chadwolion pren neu i fod wedi'u cotio.</p>

<p>Model RRK 200 - 350 y Binder Wood Fired Boiler (allbwn 250 - 300 kW) gyda seiclôn (model math ZA) a wneir gan Binder Gesellschaft mit beschränkter Haftung (GmbH) o Awstria.</p>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Rhaid i'r lleoedd tân gael eu gosod, eu cynnal a'u cadw a'u defnyddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a Wood Energy Limited sy'n dwyn y teitl Binder Equipment Installation, Commissioning and Maintenance dated 17 May 2005 a'r cyfeirnod WELBinderManualrev0.doc, revision 0.</li> <li>2. Ni chaniateir defnyddio unrhyw danwydd nad pelenni neu sglodion pren mohono, ond heb gynnwys unrhyw belenni neu sglodion o'r fath (yn benodol, rhai sy'n deillio o wastraff adeiladu a dymchwel) sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaid neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi'u trin â chadwolion pren neu i fod wedi'u cotio.</li> </ol>
<p>Model RRK 400 - 600 y Binder Wood Fired Boiler (allbwn 350 - 500 kW) gyda seiclôn (model math ZA) a wneir gan Binder Gesellschaft mit beschränkter Haftung (GmbH) o Awstria.</p>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Rhaid i'r lleoedd tân gael eu gosod, eu cynnal a'u cadw a'u defnyddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a Wood Energy Limited sy'n dwyn y teitl Binder Equipment Installation, Commissioning and Maintenance dated 17 May 2005 a'r cyfeirnod WELBinderManualrev0.doc, revision 0.</li> <li>2. Ni chaniateir defnyddio unrhyw danwydd nad pelenni neu sglodion pren mohono, ond heb gynnwys unrhyw belenni neu sglodion o'r fath (yn benodol, rhai sy'n deillio o wastraff adeiladu a dymchwel) sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaid neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi'u trin â chadwolion pren neu i fod wedi'u cotio.</li> </ol>
<p>Model RRK 640 - 850 y Binder Wood Fired Boiler (allbwn 650 - 840 kW) gyda seiclôn (model math ZA) a wneir gan Binder Gesellschaft mit beschränkter Haftung (GmbH) o Awstria.</p>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Rhaid i'r lleoedd tân gael eu gosod, eu cynnal a'u cadw a'u ddefnyddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a Wood Energy Limited sy'n dwyn y teitl Binder Equipment Installation, Commissioning and Maintenance dated 17 May 2005 a'r cyfeirnod WELBinderManualrev0.doc, revision 0.</li> <li>2. Ni chaniateir defnyddio unrhyw danwydd nad pelenni neu sglodion pren mohono, ond heb gynnwys unrhyw belenni neu sglodion o'r fath (yn benodol, rhai sy'n deillio o wastraff adeiladu a dymchwel) sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaid neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi'u trin â chadwolion pren neu i fod wedi'u cotio.</li> </ol>
<p>Model RRK 1000 y Binder Wood Fired Boiler (allbwn 1200 kW) gydag amlseiclôn (model MZA) a wneir gan Binder Gesellschaft mit beschränkter Haftung (GmbH) o Awstria.</p>	<ol style="list-style-type: none"> <li>3. Rhaid i'r lle tân gael ei osod, ei gynnal a'i gadw a'i ddefnyddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a Wood Energy Limited sy'n dwyn y teitl Binder Equipment Installation, Commissioning and Maintenance dated 17 May 2005 a'r cyfeirnod WELBinderManualrev0.doc, revision 0.</li> <li>4. Ni chaniateir defnyddio unrhyw danwydd nad pelenni neu sglodion pren mohono, ond heb gynnwys unrhyw belenni neu sglodion o'r fath (yn benodol, rhai sy'n deillio o wastraff adeiladu a dymchwel) sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaid neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi'u trin â chadwolion pren neu i fod wedi'u cotio.</li> </ol>

<p>Y Dunsley Yorkshire Woodburning Stove and Boiler a wneir gan Dunsley Heat Limited.</p>	<p>1. Rhaid i'r lle tân gael ei osod, ei gynnal a'i gadw a'i ddefnyddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr sy'n dwyn y dyddiad 4 Rhagfyr 2004 a'r cyfeirnod D13W ynghyd â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr sy'n dwyn y dyddiad 4 Hydref 2004 a'r cyfeirnod GHD/DUN4B/1.</p> <p>2. Ni chaniateir defnyddio unrhyw danwydd nad pren sych heb ei drin mohono.</p>
<p>Boileri Math USV sy'n llosgi pelenni a sglodion pren, modelau rhif USV-15, 25, 30, 40, 50, 60, 80 a 100, a wneir gan KWB - Kraft und Wärme aus Biomasse Gesellschaft mit beschränkter Haftung (GmbH) o Industriestrasse 235, A-8321 St. Margarethen an der Raab, Awstria.</p>	<p>1. Rhaid i'r lleoedd tân gael eu gosod, eu cynnal a'u cadw a'u gweithredu yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr sy'n dwyn y dyddiad Awst 2003 a'r cyfeirnod BA-USV 0803.</p> <p>2. Ni chaniateir defnyddio unrhyw danwydd nad pelenni neu sglodion pren mohono fel y disgrifir yng nghyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, ond heb gynnwys unrhyw belenni neu sglodion o'r fath (yn benodol, rhai sy'n deillio o wastraff adeiladu neu ddymchwel) sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaidd neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi'u trin â chadwlonion pren neu i fod wedi'u cotio.</p>
<p>Boileri Math USP sy'n llosgi pelenni pren, modelau rhif USP-10, 15, 20, 25 a 30, a wneir gan KWB - Kraft und Wärme aus Biomasse Gesellschaft mit beschränkter Haftung (GmbH) o Industriestrasse 235, A-8321 St. Margarethen an der Raab, Awstria.</p>	<p>1. Rhaid i'r lleoedd tân gael eu gosod, eu cynnal a'u cadw a'u gweithredu yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr sy'n dwyn y dyddiad 28 Gorffennaf 2003 a'r cyfeirnod BA-USP 0703.</p> <p>2. Ni chaniateir defnyddio unrhyw danwydd nad pelenni pren mohono fel y disgrifir yng nghyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, ond heb gynnwys unrhyw belenni o'r fath (yn benodol, rhai sy'n deillio o wastraff adeiladu neu ddymchwel) sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaidd neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi'u trin â chadwlonion pren neu i fod wedi'u cotio.</p>

## SCHEDULE

Article 2

### CLASSES OF FIREPLACE WHICH ARE EXEMPT

<i>Classes of Fireplace</i>	<i>Conditions</i>
<p>The Binder Wood Fired Boiler models RRK 22 - 49 (49 kW output) manufactured by Binder Gesellschaft mit beschränkter Haftung (GmbH) of Austria.</p>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. The fireplaces shall be installed, maintained and operated in accordance with the manufacturer's and Wood Energy Limited's instructions entitled Binder Equipment Installation, Commissioning and Maintenance dated 17th May 2005 and bearing the reference WELBinderManualrev0.doc, revision 0.</li> <li>2. No fuel shall be used other than wood pellets or wood chips, but excluding any such pellets or chips (in particular those originating from construction and demolition waste) which contain halogenated organic compounds or heavy metals as a result of treatment with wood-preservatives or coating.</li> </ol>
<p>The Binder Wood Fired Boiler models RRK 80 - 175 (75 - 149 kW output) with cyclone models ZA 80 - 175 manufactured by Binder Gesellschaft mit beschränkter Haftung (GmbH) of Austria.</p>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. The fireplaces shall be installed, maintained and operated in accordance with the manufacturer's and Wood Energy Limited's instructions entitled Binder Equipment Installation, Commissioning and Maintenance dated 17th May 2005 and bearing the reference WELBinderManualrev0.doc, revision 0.</li> <li>2. No fuel shall be used other than wood pellets or wood chips, but excluding any such pellets or chips (in particular those originating from construction and demolition waste) which contain halogenated organic compounds or heavy metals as a result of treatment with wood-preservatives or coating.</li> </ol>
<p>The Binder Wood Fired Boiler model RRK 130 - 250 (185 - 230 kW output) with cyclone (model type ZA) manufactured by Binder Gesellschaft mit beschränkter Haftung (GmbH) of Austria.</p>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. The fireplaces shall be installed, maintained and operated in accordance with the manufacturer's and Wood Energy Limited's instructions entitled Binder Equipment Installation, Commissioning and Maintenance dated 17th May 2005 and bearing the reference WELBinderManualrev0.doc, revision 0.</li> <li>2. No fuel shall be used other than wood pellets or wood chips, but excluding any such pellets or chips (in particular those originating from construction and demolition waste) which contain halogenated organic compounds or heavy metals as a result of treatment with wood-preservatives or coating.</li> </ol>

<p>The Binder Wood Fired Boiler model RRK 200 - 350 (250 - 300 kW output) with cyclone (model type ZA) manufactured by Binder Gesellschaft mit beschränkter Haftung (GmbH) of Austria.</p>	<p><b>1.</b> The fireplaces shall be installed, maintained and operated in accordance with the manufacturer's and Wood Energy Limited's instructions entitled Binder Equipment Installation, Commissioning and Maintenance dated 17th May 2005 and bearing the reference WELBinderManualrev0.doc, revision 0.</p> <p><b>2.</b> No fuel shall be used other than wood pellets or wood chips, but excluding any such pellets or chips (in particular those originating from construction and demolition waste) which contain halogenated organic compounds or heavy metals as a result of treatment with wood-preservatives or coating.</p>
<p>The Binder Wood Fired Boiler model RRK 400 - 600 (350 - 500 kW output) with cyclone (model type ZA) manufactured by Binder Gesellschaft mit beschränkter Haftung (GmbH) of Austria.</p>	<p><b>1.</b> The fireplaces shall be installed, maintained and operated in accordance with the manufacturer's and Wood Energy Limited's instructions entitled Binder Equipment Installation, Commissioning and Maintenance dated 17th May 2005 and bearing the reference WELBinderManualrev0.doc, revision 0.</p> <p><b>2.</b> No fuel shall be used other than wood pellets or wood chips, but excluding any such pellets or chips (in particular those originating from construction and demolition waste) which contain halogenated organic compounds or heavy metals as a result of treatment with wood-preservatives or coating.</p>
<p>The Binder Wood Fired Boiler model RRK 640 - 850 (650 - 840 kW output) with cyclone (model type ZA) manufactured by Binder Gesellschaft mit beschränkter Haftung (GmbH) of Austria.</p>	<p><b>1.</b> The fireplaces shall be installed, maintained and operated in accordance with the manufacturer's and Wood Energy Limited's instructions entitled Binder Equipment Installation, Commissioning and Maintenance dated 17th May 2005 and bearing the reference WELBinderManualrev0.doc, revision 0.</p> <p><b>2.</b> No fuel shall be used other than wood pellets or wood chips, but excluding any such pellets or chips (in particular those originating from construction and demolition waste) which contain halogenated organic compounds or heavy metals as a result of treatment with wood-preservatives or coating.</p>
<p>The Binder Wood Fired Boiler model RRK 1000 (1200 kW output) with multi-cyclone (model MZA) manufactured by Binder Gesellschaft mit beschränkter Haftung (GmbH) of Austria.</p>	<p><b>3.</b> The fireplace shall be installed, maintained and operated in accordance with the manufacturer's and Wood Energy Limited's instructions entitled Binder Equipment Installation, Commissioning and Maintenance dated 17th May 2005 and bearing the reference WELBinderManualrev0.doc, revision 0.</p> <p><b>4.</b> No fuel shall be used other than wood pellets or wood chips, but excluding any such pellets or chips (in particular those originating from construction and demolition waste) which contain halogenated organic compounds or heavy metals as a result of treatment with wood-preservatives or coating.</p>



<p>The Dunsley Yorkshire Woodburning Stove and Boiler manufactured by Dunsley Heat Limited.</p>	<p><b>1.</b> The fireplace shall be installed, maintained and operated in accordance with the manufacturer's instructions dated 4th December 2004 and bearing the reference D13W together with the manufacturer's instructions dated 4th October 2004 and bearing the reference GHD/DUN4B/1.</p> <p><b>2.</b> No fuel shall be used other than untreated dry wood.</p>
<p>The Type USV wood pellet and wood chip fired boilers, model numbers USV-15, 25, 30, 40, 50, 60, 80 and 100, manufactured by KWB - Kraft und Wärme aus Biomasse Gesellschaft mit beschränkter Haftung (GmbH) of Industriestrasse 235, A-8321 St. Margarethen an der Raab, Austria.</p>	<p><b>1.</b> The fireplaces shall be installed, maintained and operated in accordance with the manufacturer's instructions dated August 2003 and bearing the reference BA-USV 0803.</p> <p><b>2.</b> No fuel shall be used other than wood pellets or wood chips as described in the manufacturer's instructions, but excluding any such pellets or chips (in particular those originating from construction and demolition waste) which contain halogenated organic compounds or heavy metals as a result of treatment with wood-preservatives or coating.</p>
<p>The Type USP wood pellet fired boilers, model numbers USP-10, 15, 20, 25 and 30, manufactured by KWB - Kraft und Wärme aus Biomasse Gesellschaft mit beschränkter Haftung (GmbH) of</p>	<p><b>1.</b> The fireplaces shall be installed, maintained and operated in accordance with the manufacturer's instructions dated 28th July 2003 and bearing the reference BA-USP 0703.</p> <p><b>2.</b> No fuel shall be used Industriestrasse 235, A-8321 St. Margarethen an der other than wood pellets as described in the Raab, Austria. manufacturer's instructions, but excluding any such pellets (in particular those originating from construction and demolition waste) which contain halogenated organic compounds or heavy metals as a result of treatment with wood-preservatives or coating.</p>

---

OFFERYNNAU STATUDOL

---

**2006 Rhif 2980 (Cy.271)**

**AER GLÂN, CYMRU**

Gorchymyn Ardaloedd Rheoli  
Mwg (Lleoedd Tân Esempt)  
(Cymru) 2006

---

STATUTORY INSTRUMENTS

---

**2006 No. 2980 (W.271)**

**CLEAN AIR, WALES**

The Smoke Control Areas  
(Exempted Fireplaces) (Wales)  
Order 2006

©© Hawlfraint y Goron 2006

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2006

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W421/11/06

ON